

Polisi Preifatrwydd

Parc Chwaraeon Bae Abertawe



1 Gwybodaeth gyffredinol

Rydym wedi ymrwymo i amddiffyn preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Yn ôl cyfraith diogelu data, bydd 'Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe a Phrifysgol Abertawe yn gweithredu fel cyd-reolyddion data'. Golyga hyn ein bod yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch, a'n bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol honno.

Fel rheolydd data, mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol inni ddarparu gwybodaeth arbennig i'r unigolion hynny rydym yn casglu, yn cael, yn storio ac yn defnyddio eu gwybodaeth bersonol. Caiff yr wybodaeth honno ei chynnwys yn y ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd").

Mae'n bwysig ichi ddarllen y ddogfen hon (ynghyd ag unrhyw hysbysiadau preifatrwydd eraill a roddwn ichi ar adegau penodol), er mwyn ichi wybod sut a pham rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol a gwybod pa hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn berthnasol i holl aelodau, cleientiaid, darpar aelodau a darpar gleientiaid Parc Chwaraeon Bae Abertawe, yn ogystal â phob cynrychiolydd sy'n mynychu digwyddiad yn y cyfleuster.

Mae Parc Chwaraeon Bae Abertawe yn cynnwys partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe) a Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe. Mae'r polisi hwn yn cynnwys unrhyw aelodaeth neu ddogwyddiad sy'n gysylltiedig â'r partner-endidau hyn.

Byddwn yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Yn achos yr wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch, dywed y gyfraith hon:

1. Y dylid defnyddio'r wybodaeth mewn modd cyfreithlon, teg a chlir
2. Mai at ddibenion dilys yn unig y dylid casglu'r wybodaeth hon, sef dibenion rydym wedi'u hegluro'n glir ichi; ac na ddylid defnyddio'r wybodaeth mewn unrhyw ffordd a fydd yn anghydnaws â'r dibenion hynny
3. Y dylai'r wybodaeth fod yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi tynnu eich sylw atynt, a dim ond i'r dibenion hynny
4. Y dylai'r wybodaeth fod yn gywir ac y dylid ei diweddarau
5. Y dylai'r wybodaeth gael ei chadw cyhyd ag y bo angen at y dibenion rydym wedi tynnu eich sylw atynt, a dim hwy na hynny
6. Y dylai'r wybodaeth gael ei chadw'n ddiogel

2 Pa wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch?

Rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol gan ein cwsmeriaid a'n darpar gwsmeriaid. Gwneir hyn naill ai wyneb yn wyneb yn y cyfleuster, trwy ein system archebu ar-lein, trwy e-bost, dros y ffôn neu trwy ein gwefan. Bydd yr holl wybodaeth y gofynnir amdani wrth fewngofnodi yn ofynnol yn unol â'n Hamodau a'n Telerau. Mae yna rai categorïau, fel darpar aelod, y byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol amdanynt, at ddibenion cysylltu.

Polisi Preifatrwydd

Parc Chwaraeon Bae Abertawe



Os byddwch yn mynychu digwyddiad yn y cyfleuster, sef digwyddiad a fydd wedi'i drefnu gan drefnydd allanol, yn cynnwys camp neu dwrnamaint, o dro i dro bydd trefnydd y digwyddiad y byddwch yn ei fynychu (ein cleient) yn rhoi inni wybodaeth bersonol amdanoch chi.

Mae cyfraith diogelu data yn diogelu gwybodaeth bersonol sydd, yn y bôn, yn cwmpasu unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn ar ei sail. Mae yna fath arbennig o wybodaeth bersonol a gaiff ei ddiogelu mewn modd ychwanegol, a hynny oherwydd natur sensitif neu breifat y math hwnnw o wybodaeth. Cyfeirir at yr wybodaeth hon weithiau fel 'gwybodaeth bersonol categori arbennig' ac mae'n golygu gwybodaeth bersonol am hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth (neu ddiffyg aelodaeth) o undeb llafur, gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometrigrig (pan gaiff ei defnyddio i adnabod unigolion) a gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolion.

Fe fydd yr unig 'wybodaeth bersonol categori arbennig' a gesglir amdanoch yn ymwneud â chyflyrau iechyd sydd gennych yn barod, fel y bo'n berthnasol i weithgarwch corfforol. Cedwir yr wybodaeth hon yn unol â rheoliadau GDPR (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), a dim ond staff y cyfleuster a all gael mynediad at yr wybodaeth hon, fel y bo'n berthnasol i'ch iechyd a'ch Diogelwch tra byddwch ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe.

Bydd yr wybodaeth a gasglwn gan aelodau, cleientiaid, darpar aelodau a darpar gleientiaid sy'n ymhél â ni yn cynnwys y canlynol:

- Enw llawn, yn cynnwys teitl
- Cyfeiriad cartref
- Dyddiad geni
- Rhif ffôn y cartref
- Rhif ffôn symudol
- Cyfeiriad e-bost personol
- Llun ar gyfer ei ddefnyddio yn y system reoli
- Galwedigaeth
- Enw'r cyflogwr, os yw'n berthnasol
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Dewisiadau cysylltu ar gyfer cyfathrebu gyda Pharc Chwaraeon Bae Abertawe, yn cynnwys eich dewis iaith
- Cadarnhad eich bod yn cytuno â'r holl Amodau a Thelerau a holl bolisiâu'r cyfleuster
- Manylion eich cerdyn credyd/debyd a/neu eich manylion banc os yn berthnasol
- Os ydych yn aelod consesiwn, cadarnhad o'r aelodaeth gonsesiwn honno
- Unrhyw wybodaeth arall a roddwch inni, naill ai amdanoch chi eich hun neu eich ymholiad

Bydd yr wybodaeth uchod yn cael ei chynnwys mewn cofnod aelodaeth, a rhoddir rhif adnabod unigryw i'r cofnod hwn. Ar gyfer aelodau, golyga hyn y gallwn eich adnabod ar sail eich llun a bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau na chaiff eich cerdyn ei gamddefnyddio pe bai'n mynd ar goll neu'n cael ei ddwyn.

Ymhellach, efallai y byddwn yn gofyn am fanylion categori arbennig yn ymwneud â chyflyrau iechyd. Pwrpas hyn yw sicrhau eich diogelwch a'ch llesiant pan fyddwch yn defnyddio ein cyfleusterau ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarparwn.

Polisi Preifatrwydd

Parc Chwaraeon Bae Abertawe



O dro i dro, efallai hefyd y bydd yn ofynnol inni gasglu neu ofyn am fanylion yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig, yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Bydd yr wybodaeth a gasglwn gan y rhai a fydd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau, neu gan drefnydd y digwyddiad ynglŷn â'r rhai a fydd yn cymryd rhan yn y digwyddiad, yn cynnwys y canlynol:

- Enw a theitl
- Swydd mewn sefydliad neu fel cystadleuydd pan fo'n berthnasol
- Rhywedd
- Gwneuthuriad, model a rhif cofrestru'r cerbyd
- Alergeddau neu anghenion deietegol arbennig os yn berthnasol
- Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw anghenion arbennig sydd gennych er mwyn cael mynediad i'r cyfleusterau
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Manylion eich cerdyn credyd/debyd a/neu eich manylion banc os yn berthnasol
- Unrhyw wybodaeth arall a roddwch inni mewn perthynas â'ch digwyddiad

Ymhellach, efallai y byddwn yn gofyn am fanylion categori arbennig yn ymwneud â chyflyrau iechyd. Pwrpas hyn yw sicrhau eich diogelwch a'ch llesiant pan fyddwch yn defnyddio ein cyfleusterau ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarparwn.

O dro i dro, efallai hefyd y bydd yn ofynnol inni gasglu neu ofyn am fanylion yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig, yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

3 Ar gyfer beth y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol dros wneud hynny?

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch at nifer o ddibenion gwahanol. Caiff y dibenion hyn eu rhestru isod. Yn ôl cyfraith diogelu data, rhaid inni fod â sail gyfreithiol ddilys er mwyn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Nodir isod y seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt.

3.1 Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch am y rhesymau canlynol:

- er mwyn gweinyddu a darparu'r gwasanaethau rydych wedi gofyn amdanynt, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - cysylltu â chi ynglŷn â'ch aelodaeth neu eich trefniadau/archebion
 - rhoi'r diweddaraf ichi am unrhyw newid, neu bob newid, yn ymwneud â'r cyfleusterau neu eich aelodaeth, yn cynnwys newid prisiau neu rewi prisiau
 - dadansoddi'r ffordd rydych yn ymhél â'n negeseuon e-bost a'n negeseuon cyfathrebu eraill
 - prosesu taliadau'n ymwneud â'ch aelodaeth neu ffioedd digwyddiadau

Yn yr achos hwn, dyma'r sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol: mae'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r contract sydd rhyngom.

3.2 Hefyd, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch, os yw'n ymwneud â'ch rôl mewn cwmni neu sefydliad, am y rhesymau canlynol:

- er mwyn eich annog i drefnu neu aildrefnu digwyddiad gyda ni
- er mwyn dadansoddi'r ffordd rydych yn ymhél â'n negeseuon e-bost a'n negeseuon cyfathrebu eraill
- caiff delweddau teledu cylch cyfyng a delweddau gwe-gamerâu ar ffurf delweddau fideo neu ddelweddau llonydd eu casglu a'u storio dros dro. Gwneir hyn er mwyn cynnig amgylchedd diogel i'r bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau, yn ogystal â staff Parc Chwaraeon Bae Abertawe.

Yn mhob un o'r achosion hyn, dyma'r sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol: mae gwneud hyn o les i'n buddiannau dilys. Ein buddiannau dilys penodol yw:

- *gweithredu model busnes cynaliadwy*
- *gwella ein henw da trwy ddarparu profiad eithriadol i'r cwsmer*

3.3 Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch, os ydych wedi rhoi caniatâd penodol ac os nad yw'n ymwneud â data a brosesir dan 3.2, am y rhesymau canlynol:

- er mwyn rhoi gwybodaeth farchnata ichi yn ymwneud â'n cynhyrchion a'n gwasanaethau
- er mwyn olrhain sut rydych yn defnyddio ein gwefan ac yn rhyngweithio â hi
- er mwyn dadansoddi hanes eich trefniadau/archebion personol, gyda golwg ar eich annog i wneud mwy o drefniadau/archebion
- er mwyn eich annog i ymaelodi neu adnewyddu eich aelodaeth bresennol

Yn yr achos hwn, dyma'r sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol: rydych wedi rhoi caniatâd inni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol yn y ffordd hon.

3.4 Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch am y rhesymau canlynol:

- er mwyn cydymffurfio â chyfraith mewnfudo a dangos ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith hon, gan hyrwyddo cyfle cyfartal
- er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol

Yn yr achosion hyn, dyma'r sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol: mae'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

3.5 Er mwyn rhoi'r diweddaraf ichi, byddwn angen anfon negeseuon cyfathrebu atoch. Mae'r rhain yn cynnwys hysbysiadau'n ymwneud â thaliadau debyd uniongyrchol, a'r cynnydd, gwybodaeth am restrau aros, a negeseuon yn sôn am wasanaethau ac ati. Heb y negeseuon

cyfathrebu hyn, ni fyddai modd inni ddarparu ein gwasanaethau ichi, ac maent yn cyd-fynd â'n sail ddilys dros brosesu eich data

- er mwyn gwirio pwy ydych chi
- er mwyn cadarnhau eich bod yn gymwys, pan fo hynny'n berthnasol (e.e. statws myfyriwr, Pasbort i Hamdden ac ati)
- er mwyn mynd i'r afael â gwaith ymchwil wrth ddatblygu cyfleusterau a gwasanaethau
- er mwyn diogelu a hyrwyddo llesiant ein cwsmeriaid
- er mwyn sicrhau diogelwch ein cwsmeriaid

Ni fydd eich data'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau awtomatig.

Gan fod ein cynhyrchion a'n gwasanaethau ar gael i bobl o bob oed, yn achos plant dan 13 oed fe fydd angen caniatâd rhiant neu warcheidwad cyn y gellir rhoi gwybodaeth bersonol inni. Heb y caniatâd hwn, ni allwn gasglu unrhyw wybodaeth bersonol.

4 Pa wybodaeth bersonol categori arbennig sydd gennym amdanoch chi?

Byddwn yn cadw gwybodaeth am gyflyrau meddygol, yn cynnwys cyflyrau meddygol rydych yn dioddef ohonynt yn barod, fel y bo'n berthnasol i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Bydd y cyfranogwyr yn datgelu'r wybodaeth hon inni fel y bo'n effeithio ar eu Hiechyd a'u Diogelwch tra byddant yn defnyddio ein cyfleusterau.

Yn yr achos hwn, dyma'r sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol: mae cadw'r aelodau'n ddiogel tra byddant yn defnyddio'r cyfleuster o les i'n buddiannau dilys. Hefyd, mae hi o fudd i'r aelodau ein galluogi i roi cymorth perthnasol iddynt pan fo angen.

Rydym hefyd yn dibynnu ar y ffaith fod prosesu'r wybodaeth yn angenrheidiol er mwyn inni gydymffurfio â chyfraith Iechyd a Diogelwch

Yn ôl Erthygl 9, mae'r gwaith prosesu hwn yn angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd (gyda sail gyfreithiol)

5 Mwy o wybodaeth gyffredinol am ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol

Dim ond at y dibenion y'i casglwyd y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, oni bai y byddwn o'r farn ein bod angen ei defnyddio am reswm arall, a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol.

Sylwer: efallai y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol heb eich gwybodaeth na'ch caniatâd, yn unol â'r rheolau uchod, pan fo'r gyfraith yn caniatáu hyn. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau awtomatig nac unrhyw waith proffilio mewn perthynas â chi.

6 Â phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?

Bydd Parc Chwaraeon Bae Abertawe yn cadw eich data personol. Efallai y bydd Parc Chwaraeon Bae Abertawe yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau penodol ar ein rhan, a all ein cynorthwyo i hwyluso'r gwasanaethau a'r cyfleuster a gynigiwn i chi neu wella ein cynhyrchion a'r profiad a gewch, fel y nodir yn adran 3. Mae contractau ar waith gyda phob trydydd parti, ac mae'r rhain yn cynnwys amodau a thelerau llym i ddiogelu eich preifatrwydd.

O dro i dro, bydd angen inni rannu eich gwybodaeth gyda phobl a sefydliadau allanol eraill. Dim ond pan fo gennym sail ddilys neu gyfreithiol y byddwn yn gwneud hyn, a byddwn yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau dan gyfreithiau diogelu data. Gellir datgelu eich gwybodaeth i'r canlynol:

- **Darparwyr gwasanaethau marchnata digidol** mewn perthynas â'r ffordd rydych yn rhyngweithio gyda'n gwefan
- **Yr Heddlu, awdurdodau lleol, y llysoedd** ac unrhyw awdurdod arall y llywodraeth pe baent yn gofyn inni wneud hynny (ond dim ond os bydd hi'n gyfreithlon inni wneud hynny)
- **Pan fyddwn dan rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny**, e.e. er mwyn cydymffurfio â gorchymyn llys

8 Trosglwyddo eich gwybodaeth yn rhyngwladol

Efallai y byddwn yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE), ond fe fydd unrhyw drosglwyddo o'r fath yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol.

9 Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran preifatrwydd a diogelu data, dim ond cyhyd ag y byddwn angen yr wybodaeth at y dibenion y'i casglwyd yn wreiddiol y byddwn yn cadw'r wybodaeth. Dyma ein hamserlenni penodol ar gyfer cadw gwybodaeth:

Manylion banc ar gyfer cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol:

- Ar ôl canslo debyd uniongyrchol, bydd eich manylion banc yn cael eu dileu oddi ar eich cofnod aelodaeth o fewn mis calendr
- Bydd cofnodion papur ar gyfer debydau uniongyrchol gweithredol yn cael eu cadw am gyfnod o hyd at 60 mis
- Bydd cofnodion papur ar gyfer debydau uniongyrchol sydd wedi dod i ben yn cael eu cadw am gyfnod o hyd at 12 mis

Cofnodion aelodaeth:

- Byddwn yn cadw'r data cyhyd ag y byddwch yn aelod
- Pan fo caniatâd wedi'i roi fel sail gyfreithiol i'r broses o gasglu eich data, yna oni bai y bydd y caniatâd hwn yn cael ei dynnu'n ôl, byddwn yn cadw'r data cyhyd ag y byddwch yn aelod gyda ni, neu os caiff yr aelodaeth ei chanslo ac yn unol ag arfer safonol y diwydiant, am gyfnod o hyd at 36 mis

- Pan fo buddiannau busnes dilys yn sail gyfreithiol i'n harfer o gasglu eich gwybodaeth, yna bydd y data'n cael ei gadw cyhyd ag y byddwch yn aelod, neu os caiff yr aelodaeth ei chanslo ac yn unol ag arfer safonol y diwydiant, am gyfnod o hyd at 24 mis

Trefnu/archebu cyfleusterau a digwyddiadau:

- Yn dilyn ymholiad gyda Pharc Chwaraeon Bae Abertawe; tan ddiwedd y flwyddyn galendr yn dilyn pen-blwydd cyntaf eich ymrwymiad gyda ni
- Yn dilyn aelodaeth neu ddigwyddiad a gynhaliwyd neu a fynychwyd gyda Pharc Chwaraeon Bae Abertawe; tan ddiwedd y flwyddyn galendr yn dilyn ail ben-blwydd eich ymrwymiad gyda ni

Bydd eich data'n cael ei gadw cyhyd ag y byddwch yn parhau i fod yn gwsmer gyda ni. Ar ôl ichi roi'r gorau i fod yn gwsmer inni, byddwn yn cadw eich gwybodaeth cyhyd ag y byddwn yn barnu y bydd yn ddefnyddiol inni allu cysylltu â chi (dim hwy na chyfnod o 3 blynedd) neu fel y bo angen i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Pan na fydd angen eich data am unrhyw ddiben statudol neu gyfreithiol, yna mae gennych hawl i ofyn i'ch data gael ei ddileu.

Er mwyn pennu'r cyfnod priodol y gallwn gadw data personol, byddwn yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posibl o niwed pe bai eich data personol yn cael ei ddatgelu neu ei ddefnyddio mewn modd diawdurdod, y dibenion dros brosesu eich data personol a pha un a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

10 Hawliau'r unigolyn

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o wahanol hawliau i unigolion yn ymwneud â'u data. Rhestrir y rhain isod ac maent yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau:

- **Gwneud cais am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol ("cais am fynediad at ddata gan y testun" y gelwir hyn yn gyffredin). Bydd hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch a chadarnhau ein bod yn prosesu'r wybodaeth honno'n gyfreithlon.
- **Gwneud cais i gywiro'r** wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch. Yn achos unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir a gedwir amdanoch, bydd hyn yn eich galluogi i gael cywiro'r wybodaeth honno.
- **Gwneud cais i ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn eich galluogi i ofyn inni ddileu neu gael gwared â gwybodaeth bersonol pan na cheir unrhyw reswm da dros barhau i'w phrosesu. Hefyd, bydd gennych hawl i ofyn inni ddileu neu gael gwared â'ch gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu eich gwybodaeth bersonol (gweler isod).
- **Gwrthwynebu'r gwaith o brosesu** eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn yn dibynnu ar fuddiannau dilys (neu fuddiannau dilys trydydd parti) a phan fydd yna rywbeth ynglŷn â'ch sefyllfa arbennig sy'n eich arwain i fod eisiau gwrthwynebu'r gwaith o brosesu eich gwybodaeth bersonol ar y sail hon. Hefyd, mae gennych hawl i wrthwynebu pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Polisi Preifatrwydd

Parc Chwaraeon Bae Abertawe



- **Gwneud cais i gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn eich galluogi i ofyn inni ohirio'r gwaith o brosesu eich gwybodaeth bersonol, er enghraifft os ydych eisiau inni gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Gwneud cais yn ymwneud â chlundadwyedd** eich gwybodaeth bersonol. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych hawl i fynnu ein bod yn rhoi copi electronig ichi o'ch gwybodaeth bersonol, naill ai at eich defnydd eich hun neu er mwyn ichi allu rhannu'r wybodaeth gyda sefydliad arall. Pan fo hyn yn berthnasol i chi, gallwch ofyn inni drosglwyddo eich data personol yn uniongyrchol i'r parti arall pan fo hynny'n ddichonadwy.

Os ydych eisiau adolygu, cadarnhau neu gywiro eich gwybodaeth bersonol, gwneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu'r gwaith o brosesu eich data personol, neu ofyn inni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r canlynol:

Swyddog Diogelu Data Parc Chwaraeon Bae Abertawe

Parc Chwaraeon Bae Abertawe

Lôn Sgeti

Abertawe

SA2 8QG

Cyfeiriad e-bost: dataprotection@swansea.ac.uk

Ni fydd angen talu ffi fel rheol

Ni fydd yn rhaid ichi dalu ffi i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol (neu i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y byddwn yn codi tâl rhesymol pe bai eich cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n eithafol. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Yr hyn y gallwn fod ei angen gennych

Efallai y bydd yn rhaid inni ofyn am wybodaeth benodol gennych er mwyn ein helpu i gadarnhau pwy ydych chi a sicrhau eich hawl i gael mynediad at yr wybodaeth (neu i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Dyma fesur diogelwch priodol arall er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth bersonol ei datgelu i unrhyw un nad oes ganddo hawl i'w chael.

11 Y gallu i dynnu caniatâd yn ôl

Pan gaiff eich data personol ei brosesu ar sail eich caniatâd neu eich caniatâd penodol, mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl mewn perthynas â'r gwaith prosesu hwn unrhyw adeg. Gallwch wneud hyn trwy gysylltu â'r Swyddog Rheoli Data a enwir yn adran 17. Os tynnwch eich caniatâd yn ôl, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw waith prosesu a wnaed mewn perthynas â'ch data personol ar sail caniatâd a roddwyd cyn ichi ein hysbysu eich bod yn tynnu'r caniatâd hwn yn ôl.

12 Y canlyniad yn sgil peidio â darparu'r data pan fo'n seiliedig ar ofyniad statudol neu gontractiol

Polisi Preifatrwydd

Parc Chwaraeon Bae Abertawe



Os gwrthodwch ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol pan fo'n seiliedig ar ofyniad contractiol, ni fydd modd i Barc Chwaraeon Bae Abertawe weinyddu eich trefniant/archeb neu eich aelodaeth.

12 Diogelwch gwybodaeth

Mae Parc Chwaraeon Bae Abertawe yn cymryd y gwaith o ddiogelu eich data o ddifrif. Caiff y canllawiau a ddefnyddiwn i ofalu am eich data eu rhestru isod:

- Caiff systemau diogelwch eu rhoi ar waith er mwyn diogelu eich gwybodaeth bersonol
- Bydd eich dewisiadau cyfathrebu yn cael eu parchu a byddwn yn cysylltu â chi yn unol â'ch dewisiadau (ar hyn o bryd, ni allwn gysylltu â chi trwy neges destun)
- Bydd eich gwybodaeth a'ch dewisiadau cyfathrebu'n cael eu diweddarau'n ddi-oed pan fyddwch yn gofyn inni wneud hynny
- Ni fyddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn hwy na bo angen ar gyfer ein dibenion busnes dilys
- Byddwn yn ymateb yn llawn i unrhyw gais a gyflwynwch i weld yr wybodaeth a gedwir amdanoch
- Ni fyddwn byth yn gwerthu eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti
- Mae gennym weithdrefnau ar waith ar gyfer trin, prosesu a storio eich gwybodaeth

13 Diweddarau'r polisi preifatrwydd hwn

Awn ati'n rheolaidd i adolygu'r ffordd y defnyddiwn eich gwybodaeth. Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn newid y math o wybodaeth a gasglwn, sut y byddwn yn ei storio, â phwy y byddwn yn ei rhannu, a sut y byddwn yn gweithredu ar ei sail.

O'r herwydd, bydd yn rhaid inni newid y polisi preifatrwydd hwn o dro i dro, er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol. Diweddarwyd y polisi hwn y tro diwethaf ar 17 Rhagfyr 2020.

14 Amdanom ni

Cyfleuster ar y cyd gyda dau leoliad yn ardal Bae Abertawe yw Parc Chwaraeon Bae Abertawe. Caiff ei reoli'n uniongyrchol gan Chwaraeon Abertawe (Prifysgol Abertawe) a Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (Dinas a Sir Abertawe). Lleolir y prif gyfleuster, gan gynnwys y dderbynfa, yn Lôn Sgeti, Sgeti, Abertawe, SA2 8QG

Ni yw rheolydd data'r wybodaeth a roddwch inni. Mae'r term "rheolydd data" yn derm cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r unigolyn neu'r endid sy'n rheoli'r modd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

15 Ble i droi os hoffech gael mwy o wybodaeth am eich hawliau neu i wneud cwyn

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n rheoleiddio materion yn ymwneud â phreifatrwydd a diogelu data yn y DU. Ceir llawer o wybodaeth ar eu gwefan ac maent yn sicrhau bod manylion

Polisi Preifatrwydd

Parc Chwaraeon Bae Abertawe



cofrestredig pob rheolydd data, fel ni, ar gael i'r cyhoedd. Gallwch gael gafael ar y manylion hyn yma http://www.ico.gov.uk/for_the_public.aspx.

Gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw adeg ynglŷn â'r ffordd y defnyddiwn eich gwybodaeth. Fodd bynnag, ein gobaith yw y byddech yn ystyried sôn am unrhyw fater neu gŵyn wrthym ni yn gyntaf. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau glas i ddatrys unrhyw broblemau sydd gennych.

16 Y Rheolydd Data a'i fanylion cyswllt

Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe a Phrifysgol Abertawe (Chwaraeon Abertawe) yw'r Cyd-reolydd Data, ac maent wedi ymrwmo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig yr UE 2003. (Rydym wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, cyfeirnod Z9495912.)

17 Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Barc Chwaraeon Bae Abertawe Swyddog Diogelu Data. Gellir cysylltu ag ef ar dataprotection@swansea.ac.uk. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn cysylltu'n ôl ynglŷn â phob cais. Mae croeso ichi gysylltu gyda ni unrhyw adeg i drafod eich gwybodaeth.